WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Gwaith dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol

# Cyngor Dinas Casnewydd

Cyhoeddwyd: 29 Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 219A2015



Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alan Morris, Allison Rees, Jackie Joyce, Martin Gibson, Non Jenkins, Paul Cunningham, Ryan Price, Terry Lewis a Lisa Williams.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Cynigion ar gyfer gwella | 6 |

Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Erys gwendidau hirsefydledig o ran trefniadau llywodraethu o hyd, a cheir diffyg arweinyddiaeth gyfunol rhwng Aelodau a swyddogion i lywio gwelliant | 11 |
| Mae'r trefniadau rheoli ariannol wedi gwella, ond mae angen datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig manylach er mwyn eu mantoli dros gyfnod hwy o amser ac mae angen ymdrin â phroblemau o ran capasiti yn yr adran gyllid er mwyn parhau â'r gwelliannau | 16 |
| Mae'r cynnydd diweddar o ran datrys gwendidau mewn trefniadau rheoli pobl yn amlwg ac mae cynlluniau ar waith i ddechrau mynd i'r afael â materion cynllunio'r gweithlu, ond mae angen gwerthuso mentrau i leihau salwch ymhlith y staff ymhellach | 19 |
| Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion o ran TGCh, ond erys gwendidau mewn rhai trefniadau llywodraethu ac ansicrwydd o ran ei gynlluniau ar gyfer parhad pe byddai digwyddiad nas rhagwelwyd | 22 |
| Bu rhai gwelliannau o ran trefniadau cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chaiff y broses o graffu ar berfformiad ei herio ddigon i sicrhau gwelliannau parhaus | 23 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella o Adroddiad Asesu Corfforaethol 2013 | 29 |

# Crynodeb

1 Ar 19 Medi 2013, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad Asesu Corfforaethol[1] ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor). Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad, ar y pryd, ei bod yn adeg dyngedfennol i'r Cyngor wrth iddo ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydledig yn y trefniadau a oedd yn ategu gwelliant ac, o sicrhau perchenogaeth ehangach a mwy o gapasiti, bod ganddo'r potensial i gyflawni newidiadau ar y raddfa a'r cyflymdra sydd eu hangen.

2 Daethom i'r casgliad hwn yn 2013 oherwydd:

- roedd gan y Cyngor weledigaeth glir ac roedd y Prif Weithredwr yn dechrau creu'r diwylliant, yr amodau a'r cyfeiriad strategol i'w chyflawni;
- bu'r Cyngor yn araf i fynd i'r afael â gwendidau yn y trefniadau llywodraethu sy'n ategu ei benderfyniadau i gefnogi gwelliant ond roedd bellach yn rhoi trefniadau ar waith i atgyfnerthu trefniadau craffu a'i raglen newid;
- er bod gwelliannau mewn rhai meysydd, cydnabu'r Cyngor nad yw wedi rheoli ei adnoddau'n ddigon da i'w helpu i gyflawni ei welliannau arfaethedig;
- roedd gwaith y Cyngor gyda phartneriaid yn gwella ond nid oedd yn gallu dangos effaith ei waith ar y cyd;
- cydnabu'r Cyngor nad yw wedi rheoli perfformiad na risg yn ddigon da, ac roedd yn rhoi rhai trefniadau gwell ar waith i ysgogi gwelliant; ac
- Ar y cyfan, roedd gwasanaeth addysg y Cyngor yn cyrraedd y lefelau perfformiad disgwyliedig neu'n rhagori arnynt, ond nid oedd y Cyngor yn cyflawni popeth yn ôl y bwriad mewn rhai gwasanaethau allweddol eraill.

3 Gwnaeth yr adroddiad Asesu Corfforaethol chwe argymhelliad a saith cynnig ar gyfer gwella, a restrir yn Atodiad 1.

1 Adroddiad Asesu Corfforaethol ar Gyngor Dinas Casnewydd
www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cyngor-dinas-casnewydd-asesiad-corfforaethol-rhagarweiniol-2013

4 4 Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2014, gwnaethom adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth roi'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella ar waith. Nodwyd bod **y Cyngor wedi gwella rhai agweddau ar ei drefniadau, ond, mewn meysydd eraill ni chyflawnwyd newidiadau ar y raddfa na'r cyflymdra gofynnol, ac erys gwendidau hirsefydledig o ran trefniadau llywodraethu.**

5 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Erys gwendidau hirsefydledig o ran trefniadau llywodraethu o hyd, a cheir diffyg arweinyddiaeth gyfunol rhwng Aelodau a swyddogion i lywio gwelliant;
- mae'r trefniadau rheoli ariannol wedi gwella, ond mae angen datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig manylach er mwyn eu mantoli dros gyfnod hwy o amser ac mae angen ymdrin â phroblemau o ran capasiti yn yr adran gyllid er mwyn parhau â'r gwelliannau;
- mae'r cynnydd diweddar o ran datrys gwendidau mewn trefniadau rheoli pobl yn amlwg ac mae cynlluniau ar waith i ddechrau mynd i'r afael â materion cynllunio'r gweithlu, ond mae angen gwerthuso mentrau i leihau salwch ymhlith y staff ymhellach;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion o ran TGCh, ond erys gwendidau mewn rhai trefniadau llywodraethu ac ansicrwydd o ran ei gynlluniau ar gyfer parhad pe byddai digwyddiad nas rhagwelwyd; ac
- bu rhai gwelliannau o ran trefniadau cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chaiff y broses o graffu ar berfformiad ei herio ddigon i sicrhau gwelliannau parhaus.

# Argymhellion

6 Mae dau o'r argymhellion statudol a wnaed yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol gwreiddiol ym mis Medi 2013 yn berthnasol o hyd, a chafodd pedwar arall eu diweddaru i adlewyrchu cynnydd y Cyngor ers hynny. Yn ogystal, rydym wedi ychwanegu dau argymhelliad statudol arall. Mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i bob argymhelliad statudol newydd ac eithriadol drwy baratoi datganiad gweithredu ac amserlen arfaethedig o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.

**Argymhellion**

**A1 Diweddarwyd ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, A1)**

Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau yn ystyried gwybodaeth gadarn yn rheolaidd ac mewn ffordd dryloyw cyn gynted â phosibl er mwyn eu galluogi i lywio, gwneud a herio dewisiadau a phenderfyniadau'n effeithiol, a sicrhau y caiff penderfyniadau eu cofnodi ac yr adroddir arnynt mewn ffordd dryloyw. Mae hyn yn cynnwys ystyried:

- Arfarniadau o opsiynau.
- Goblygiadau'r opsiynau, argymhellion a phenderfyniadau.
- Achosion busnes â chostau llawn cyn rhoi cychwyn ar raglenni mawr i gefnogi newid. Dylai effaith ariannol unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau gael eu hadlewyrchu'n uniongyrchol mewn cynlluniau ariannol tymor canolig pan fo'r newid yn sicr o ddigwydd neu fel sensitifrwydd os nad yw'r newid yn sicr o ddigwydd.

**A2 Dim newid ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, A2)**

Dylai'r Cyngor ymateb gyda mwy o frys i'r gwendidau yn y trefniadau llywodraethu sy'n ategu ei benderfyniadau i gefnogi gwelliant. Byddai hyn yn cynnwys:

- atgyfnerthu trefniadau rhaglennu gwaith pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn amserol, yn ystyrlon, yn llawn gwybodaeth, yn dryloyw, yn gytbwys, yn gydlynol a'u bod yn cael eu monitro;
- adolygu a diweddaru cyfansoddiad y Cyngor gan sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir, a bod yr holl aelodau yn deall ac yn cymhwyso eu priod rolau mewn perthynas â'i gilydd heb amharu ar annibyniaeth;
- grymuso aelodau i fod yn fwy rhagweithiol ac atebol am eu rolau a'u cyfrifoldebau;
- atgyfnerthu trefniadau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau tryloywder a mesurau diogelu priodol;
- atgyfnerthu trefniadau craffu er mwyn llywio a herio polisïau, opsiynau, penderfyniadau a chamau gweithredu yn fwy effeithiol, a dwyn aelodau'r Cabinet, swyddogion, partneriaid ac eraill i gyfrif mewn ffordd gadarnach er mwyn gwneud cynnydd a gwelliannau cyflymach;
- cryfhau a mandadu rhaglenni datblygu a dysgu i aelodau a swyddogion yn seiliedig ar asesiadau cymhwysedd er mwyn gwella sgiliau a dealltwriaeth i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol; a
- ymdrin â threfniadau diogelu gwybodaeth a pharhad busnes.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A3** | **Diweddarwyd ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, A3)**<br>Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol strategol yn parhau i ddatblygu i ymateb i'r heriau sylweddol a wynebir drwy sicrhau'r canlynol:<br>• y caiff cynlluniau arbedion cadarn eu datblygu'n fanylach i fodloni'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer 2015-16 ac er mwyn helpu i gyflawni cynllun ariannol tymor canolig ystyrlon;<br>• y cyflwynir digon o her er mwyn gwneud yn siŵr y caiff cynlluniau arbedion/buddsoddiadau eu cyflawni ac y caiff unrhyw orwariant ar gyllidebau ei nodi a'i drin drwy ymyriadau cynnar;<br>• bod cynlluniau ariannol yn darparu cysylltiadau clir ag amcanion gwella a chynlluniau gwasanaeth; ac<br>• bod digon o staff cyllid (yn ganolog ac o fewn adrannau unigol) sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad priodol i ategu'r broses o ddatblygu a chyflwyno cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| **A4** | **Diweddarwyd ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, A4)**<br>Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei drefniadau rheoli pobl, er mwyn sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen i newid a gwella. Wrth wneud hynny, dylai:<br>• barhau i ddatblygu ei Gynllun Gweithlu drafft a chynlluniau gweithredu cysylltiedig drwy, ar gyfer pob gweithred: neilltuo cyfrifoldeb i swyddog a phennu terfyn amser ar gyfer cwblhau'r weithred;<br>• gan nad oes dull ffurfiol o roi adborth 360 gradd i bob aelod o staff, ymdrin ag anghysondeb rheolwyr i arfarnu staff a sicrhau bod staff yn cael arfarniad adeiladol a datblygiadol er mwyn hyrwyddo perfformiad mewn swydd; ac<br>• gosod dangosydd perfformiad allweddol a tharged heriol ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion o ran pennu targedau y cytunwyd arnynt gan Uwch Dîm Arwain y Cyngor ar 17 Mawrth 2015. |
| **A5** | **Diweddarwyd ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, A6)**<br>Atgyfnerthu'r trefniadau sy'n galluogi'r Cyngor i graffu ar ei amcanion gwella. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• Galluogi aelodau i herio perfformiad gwasanaethau a chraffu arnynt yn effeithiol:<br>  – egluro priod rolau'r bwrdd perfformiad a'r pwyllgor craffu;<br>  – sicrhau bod agendâu cyfarfodydd y ddau yn caniatáu digon o amser i aelodau ganolbwyntio ar achosion (eang) o danberfformio; a<br>  – rhoi hyfforddiant i aelodau ar ddulliau herio a chraffu effeithiol.<br>• Gwella'r broses o bennu targedau er mwyn adlewyrchu'r safonau gwasanaeth/perfformiad y mae'r Cyngor yn awyddus i'w cyflawni yn well. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A6** | **Argymhelliad newydd**<br>Rydym yn argymell y dylai'r Cyngor wella'r arweinyddiaeth gyfunol gan Aelodau a swyddogion ar gyfer cyflwyno ei ymateb i Asesiad Corfforaethol 2013 yr Archwilydd Cyffredinol drwy gytuno ar drefniadau atebolrwydd a monitro clir mewn perthynas â rhoi'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella ar waith. |
| **A7** | **Argymhelliad newydd**<br>Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff yr holl ddata ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol eu casglu a'u cyhoeddi yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru; yn enwedig DSC. EDU/015a – Cyhoeddi datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig terfynol o fewn 26 wythnos. |

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Mae dau o'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol gwreiddiol ym mis Medi 2013 wedi'u diweddaru i adlewyrchu cynnydd y Cyngor ers hynny. Yn ogystal, gwnaed chwe chynnig newydd ar gyfer gwella. Pan fyddwn yn gwneud cynigion ar gyfer gwella, byddem yn disgwyl i'r Cyngor weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

| Cynigion ar gyfer gwella |
|---|
| **C1 Cynnig newydd ar gyfer gwella**<br>Profi'r cynllun parhad busnes technoleg gwybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'r disgwyl. Yn arbennig, dylai'r Cyngor brofi senario lle nad yw'r ddwy ystafell gweinydd yn y Ganolfan Ddinesig ar gael er mwyn canfod pa mor hir y bydd yn ei gymryd i drefnu ystafell gweinydd oddi ar y safle a pha effaith a gaiff hyn ar ei amserlen ar gyfer adfer ei systemau critigol. |
| **C2 Cynnig newydd ar gyfer gwella**<br>Mae'n rhaid i'r Cyngor ailddyrannu rôl cadeirydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn dileu'r achos presennol o wrthdaro buddiannau sy'n codi wrth i Bennaeth yr Is-adran TGCh gadeirio'r grŵp. |
| **C3 Cynnig newydd ar gyfer gwella**<br>Atgyfnerthu Cynllun Cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Casnewydd yn Un drwy gyflwyno cynllun cyflawni sy'n cynnwys:<br>• datganiad penodol ar ganlyniadau ac effaith fwriadedig;<br>• amserlen cyflawni ac asesiad o gynnydd; ac<br>• mesurau perfformiad cadarn. |
| **C4 Cynnig newydd ar gyfer gwella**<br>Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau casglu data cadarn ganddo ar gyfer ei ddangosyddion perfformiad hunanddiffiniedig sy'n cynnwys sicrhau'r canlynol:<br>• y caiff trefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer rheoli perfformiad eu gweithredu'n gadarn gan adrannau gwasanaeth;<br>• bod systemau gwybodaeth fewnol y Cyngor (VIEWS) yn gyson â'r data terfynol wedi'u dilysu; ac<br>• y cedwir llwybr archwilio cyflawn o brosesau mewnol y Cyngor ar gyfer dilysu data dangosyddion perfformiad. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C5** | **Diweddarwyd ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, C1)**<br>Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• datblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu briodol sy'n cyfleu'r fframwaith sefydliadol a'r genhadaeth newydd, ac sydd hefyd yn cefnogi newidiadau diwylliannol o fewn y sefydliad; ac<br>• sicrhau bod ganddo'r bobl a'r adnoddau a all weithredu'r fframwaith sefydliadol a gwneud newidiadau dilynol i wasanaethau. |
| **C6** | **Diweddarwyd ers Asesiad Corfforaethol 2013 (2013, C6)**<br>Atgyfnerthu fframwaith rheoli perfformiad y BGLl er mwyn egluro:<br>• sut y caiff yr holl wybodaeth gan y gwahanol bartneriaid ei choladu a'i rheoli a phwy sy'n gyfrifol am hyn;<br>• pryd y caiff y Cynllun Integredig Sengl ei adolygu a'i ystyried i'w gymeradwyo; ac<br>• y systemau ar gyfer ymdrin ag achosion o dan berfformio. |

# Adroddiad manwl

## Erys gwendidau hirsefydledig o ran trefniadau llywodraethu o hyd, a cheir diffyg arweinyddiaeth gyfunol rhwng Aelodau a swyddogion i lywio gwelliant

### Nid oes unrhyw gamau diogelu tryloyw ar waith o hyd ar gyfer achlysuron pan fydd diffyg arweinyddiaeth gyfunol ac arweinyddiaeth gwleidyddol a chyngor swyddog proffesiynol yn gwrthdaro

8 Nid yw'r aelodau etholedig yn ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau na gwybodaeth yn gyson i'w galluogi i werthuso dewisiadau a gwneud a herio penderfyniadau'n effeithiol o hyd, ac ni chaiff penderfyniadau bob amser eu cofnodi na'u cyflwyno mewn ffordd dryloyw.

9 Mae prosesau ar waith gan y Cyngor ar gyfer cynllunio prosiectau, llunio adroddiadau sy'n cynnig amrywiaeth o opsiynau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a chofnodi a chyhoeddi penderfyniadau dilynol. Fodd bynnag, ni chaiff y prosesau hyn bob amser eu dilyn.

10 Ystyriwyd rhai o benderfyniadau allweddol y Cyngor gan uwch reolwyr ac fel rhan o gyfarfodydd anffurfiol y Cabinet. Fodd bynnag, nid atgyfeiriwyd yr amrywiaeth lawn o opsiynau a gwerthusiadau wedi hynny drwy brosesau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae penderfyniadau anffurfiol o'r fath hefyd yn benderfyniadau. Mae penderfyniad i beidio â chyflwyno opsiwn i'w ystyried pan gaiff y penderfyniad terfynol ei wneud yn benderfyniad ynddo'i hun. Nid yw Swyddogion nac Aelodau'r Cabinet yn cofnodi'r achosion hyn nac yn adrodd arnynt mewn ffordd gyson a thryloyw o hyd.

11 At hynny, cadarnhawyd rhai penderfyniadau allweddol yn derfynol y tu allan i fforwm ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau. O ganlyniad i'r arfer hon, rhoddwyd camau gweithredu ar waith heb eu gwerthuso a chytuno arnynt yn ffurfiol ac ni chofnodwyd y penderfyniadau terfynol yn y cofnod cyhoeddus. Mae hyn wedi arwain at ddryswch, ansicrwydd ac yn ddiweddar, ddiffyg ymddiriedaeth ymhlith rhai aelodau etholedig a swyddogion a rhwng yr unigolion hynny. Er bod trefniadau ar waith gan y Cyngor i wneud penderfyniadau dirprwyedig, mae'r ffaith na chânt eu dilyn wedi gwanhau trefniadau llywodraethu ac wedi tanseilio diwylliant o arweinyddiaeth gyfunol gan Aelodau a swyddogion a llywodraethu agored a thryloyw.

12 Cynhaliwyd gwaith dilynol gennym ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth ail-lunio ei Uwch Dîm Arwain yn ystod 2013 a'i gynlluniau ar y pryd i adolygu'r strwythur Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn helpu ei Dîm Arwain i roi Prosbectws ar gyfer Newid y Cyngor a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith. Un o gynigion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig oedd sicrhau arbedion ariannol o ran cost y strwythur uwch reolwyr drwy 'ddadhaenu' uwch reolwyr (Penaethiaid Gwasanaeth). Yn ogystal, roedd blaenoriaethau'r Cyngor yn cynnwys dechrau meithrin capasiti arweinyddiaeth a gwella trefniadau atebolrwydd er mwyn helpu i lywio gwelliant.

13 Ym mis Hydref 2013, dechreuodd y Prif Weithredwr ddatblygu amrywiaeth o strwythurau i'r Cabinet eu hystyried. Gofynnodd y Cyngor hefyd am gyngor gan ymgynghorwyr adnoddau dynol allanol, sef Hay Group, ar strwythur arfaethedig. Ystyriodd Hay Group ostyngiad yn nifer y Penaethiaid Gwasanaeth o 10 swydd i wyth swydd. Cynhaliwyd ymarfer meincnodi ganddo hefyd ar y cyfraddau cyflog presennol gan fod y Cyngor o'r farn ei fod yn talu cyflogau cymharol isel a bod angen iddo wella ei gyfraddau cyflog ar y lefel hon. Meincnodwyd lefelau cyflog y Cyngor yn erbyn tri sector arall (Diwydiannol a Gwasanaeth, Cyhoeddus/Di-elw a Llywodraeth Leol) ond ni chymharwyd eu lefelau cyflog â lefelau cyflog awdurdodau lleol eraill tebyg yng Nghymru. Cyflwynodd Hay Group adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Prif Weithredwr ym mis Mawrth 2014. Roedd y canfyddiadau yn cefnogi cynnig y Cyngor i symud o 10 pennaeth gwasanaeth i wyth, a hefyd i ddileu'r band cyflog isaf o blith y tri band cyflog, er mwyn codi'r man cychwyn ar gyfer gradd pob Pennaeth Gwasanaeth i'r band nesaf (a fyddai'n creu costau ychwanegol a gâi eu gwrthbwyso gan yr arbedion o ganlyniad i gael gwared ar ddwy swydd).

14 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gyfres o gynigion ffurfiol a lluniodd nodyn cyngor cyfrinachol i'w ystyried gan y Cabinet mewn cyfarfod briffio anffurfiol ym mis Ebrill 2014. Roedd y nodyn cyngor cyfrinachol yn seiliedig ar ddau fodel posibl, un a oedd yn cynnwys wyth pennaeth gwasanaeth ac opsiwn newydd a oedd yn cynnwys naw pennaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, nododd y nodyn cyngor nad oedd y model a oedd yn cynnwys naw pennaeth gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor hwy, gan nad oedd yn cyflawni'r lefel arbedion a ragwelwyd gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

15 Wedyn, paratôdd y Prif Weithredwr adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i un o gyfarfodydd cyhoeddus y Cabinet ym mis Gorffennaf 2014, gan ddarparu crynodeb o resymau'r Cyngor dros ailstrwythuro a chan gynnwys dyfyniad o adroddiad Hay Group ar feincnodi cyflogau. Cynigiodd yr adroddiad opsiwn newydd o ran strwythur a oedd yn cynnwys naw pennaeth gwasanaeth, a ddatblygwyd yn dilyn trafodaethau rhwng y Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet. Yn bwysig ddigon, nid amlinellwyd yr opsiynau eraill posibl yn yr adroddiad hwn, fel y model a oedd yn cynnwys wyth Pennaeth Gwasanaeth (a ystyriwyd gan Hay Group yn ei waith cynharach) na'r model amgen ar gyfer naw Pennaeth Gwasanaeth fel y'i hamlinellwyd yn y nodyn cyngor ym mis Ebrill 2014.

16 Paratôdd y Prif Weithredwr nodyn cyngor anffurfiol arall i'r Arweinydd ym mis Medi 2014, er mwyn crynhoi canlyniadau'r amrywiol brosesau ymgynghori a roddwyd ar waith. Amlinellodd y nodyn cyngor yr amrywiol sylwadau a gafwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ac argymhellodd nifer o ddiwygiadau ond awgrymodd nad oedd unrhyw beth a fyddai'n achosi anhawster o ran bwrw ati i roi'r strwythur y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Gorffennaf ar waith, yn seiliedig ar y model a oedd yn cynnwys naw Pennaeth Gwasanaeth. Nododd y nodyn cyngor na fyddai angen penderfyniad arall gan y Cabinet mewn perthynas â'r penderfyniadau a amlinellwyd yn y papur hwn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod o'r penderfyniad hwn ac ni chyflwynwyd unrhyw adroddiad terfynol i'r Cabinet ar y sefyllfa derfynol y cytunwyd arni yn dangos pwy fyddai'n gyfrifol am ddarparu amrywiol wasanaethau'r Cyngor ar ôl y diwygiadau terfynol, p'un a fyddai unrhyw newidiadau i gyfrifoldebau'r Uwch Dîm Arwain na'r goblygiadau a ragwelwyd o ran costau/arbedion.

17 Daeth proses y Cyngor ar gyfer gweithredu'r strwythur newydd i ben drwy ffurfioli'r penodiadau ar 1 Rhagfyr 2014, er nad oedd rhai aelodau etholedig a swyddogion yn ymwybodol bod y broses ymgynghori wedi dod i ben nac ychwaith beth oedd y strwythur terfynol.

18 Roedd y penderfyniad hwn yn benderfyniad pwysig ar strwythur diwygiedig a fyddai'n cyflawni arbedion ariannol, yn atgyfnerthu capasiti strategol ac yn sicrhau y gallai'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r adroddiadau a welwyd gennym yn cynnwys ffigurau ar gyfer arbedion cost. Ond nid yw'r adroddiadau yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r ffordd y cyfrifwyd y ffigurau, effaith codi cyfraddau cyflogau nac unrhyw gostau cysylltiedig eraill (megis adolygiad Hay Group). Yn ein barn ni, roedd diffyg tryloywder drwy gydol y broses hon o ran pwy oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau allweddol. Hefyd, nid yw'r ddogfennaeth a welsom yn eglur o ran yr hyn y cytundeb terfynol gan nad oes unrhyw gofnod o'r penderfyniad na'r strwythur terfynol, ac nid ystyriwyd pob opsiwn posibl ar adegau allweddol. Ategwyd hyn hefyd gan amrywiaeth o sylwadau a gawsom gan Aelodau a swyddogion, a oedd yn aneglur iawn ynghylch y broses a oedd yn mynd rhagddi a pha gam roedd proses ailstrwythuro'r Cyngor wedi cyrraedd adeg ein gwaith maes.

19 Gwnaethom waith dilynol hefyd ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth adolygu ei gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i rannu Prif Swyddog Addysg am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd gydag adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod y chwe mis cyntaf. Nodwyd gennym yn adroddiad Asesu Corfforaethol 2013 fod gwendidau ym mhrosesau'r Cyngor ar gyfer cytuno ar gyd-benodiad y Prif Swyddog Addysg gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a oedd yn deillio o'r ffaith nad oedd y Cyngor wedi ystyried yr amrywiaeth llawn o opsiynau a oedd ar gael na goblygiadau'r opsiynau hyn mewn ffordd gytbwys ac amserol.

20 Dylid canmol Cyngor Casnewydd am ei fwriad i helpu a chefnogi Cyngor arall i wella ei wasanaeth ac roedd y bwriad hwnnw yn gyson â dull gweithio rhanbarthol Gwasanaethau Cyflawni Addysg Consortiwm De-ddwyrain Cymru a oedd newydd ymsefydlu ar y pryd. Fodd bynnag, er iddynt lunio a chytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth (CLG) ar gyfer y trefniant, ni chafodd y cytundeb hwnnw ei lofnodi, a pharhaodd y trefniant ar sail anffurfiol heb unrhyw drefniadau diwydrwydd dyladwy nac unrhyw drefniadau llywodraethu priodol ar waith. Er gwaethaf diffyg tystiolaeth o werthusiad ffurfiol (yn unol â'r CLG), rhoddodd Cyngor Casnewydd wybod i Gyngor Blaenau Gwent i ddechrau ym mis Tachwedd 2013 y byddai'n tynnu'n ôl o'r trefniant ar gyfer rhannu Prif Swyddog Addysg, er iddo newid y dyddiad wedi hynny i fis Ionawr 2014. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn oedd pwysau gwaith gormodol ac anghynaliadwy ar aelodau allweddol o staff, gostyngiad canfyddedig o ran perfformiad ysgolion yng Nghasnewydd a heriau ariannol. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw effaith andwyol parhaus ar berfformiad Cyngor Casnewydd nac ar ei gydberthnasau â Chyngor Blaenau Gwent.

21 Nid oes unrhyw gamau diogelu tryloyw ar waith o hyd ar gyfer achlysuron pan fydd cyngor proffesiynol a chyfeiriad gwleidyddol yn gwrthdaro. Nid yw rhai penderfyniadau gan swyddogion ac aelodau etholedig i beidio â rhoi penderfyniad neu opsiwn ar waith yn cael eu cofnodi'n briodol nac yn cael eu hadrodd mewn ffordd dryloyw o hyd. Er mwyn diogelu buddiannau ei aelodau etholedig a chyngor proffesiynol swyddogion, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cadw cofnod llawn a thryloyw o'i benderfyniadau, gan gyfeirio'n benodol at ei Gyfansoddiad.

22 Prin yw'r dystiolaeth hefyd fod gwahanol opsiynau yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar gyfranogiad y Cyngor yn y dyfodol mewn rhai trefniadau cydweithredu allweddol. Ystyrir bod y diffyg trefniadau ar gyfer arfarnu opsiynau yn fanwl er mwyn ategu'r broses o wneud penderfyniadau yn wendid.

## Er bod y Cyngor wedi gwneud rhai diwygiadau i'w Gyfansoddiad, ni chynhaliwyd adolygiad na gwerthusiad llawn hyd yma ac erys diffyg eglurder a dealltwriaeth ynghylch rolau a chyfrifoldebau

23 Er bod y Cyngor wedi diwygio ei Gyfansoddiad yn dilyn adolygiad, erys diffyg eglurder a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau. Mae'r diffyg eglurder hwn yn ymwneud yn benodol â'r canlynol: p'un ai'r aelod o'r Cabinet neu'r swyddog ddylai fod yn atebol am faterion perthnasol adeg craffu; rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor craffu; statws Byrddau Adolygu Polisi Craffu a'r is-grwpiau craffu newydd a gaiff eu llywio gan yr aelodau; a phriod rolau a statws y Bwrdd Perfformiad a'r pwyllgor craffu wrth reoli a herio perfformiad y Cyngor. Nid yw'r Cyngor wedi ategu'r newidiadau â hyfforddiant digonol i godi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion ac aelodau etholedig.

24 Cytunwyd ar brotocolau newydd ar gydberthnasau rhwng y Cabinet a'r pwyllgor craffu ac maent yn dechrau ymsefydlu. Hefyd, sefydlwyd Grŵp Gwella Craffu trawsbleidiol i roi cynllun gweithredu ar gyfer gwella trefniadau Craffu'r Cyngor ar waith. Fodd bynnag, ni chafwyd newid sylfaenol yn nhrefniadau craffu'r Cyngor a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn dilyn ei adolygiad o drefniadau Craffu. Fel y cyfryw, nid yw trefniadau craffu'r Cyngor yn effeithiol o hyd. Ceir diffyg arweinyddiaeth ac ymdrechion cyfunol rhwng Aelodau a swyddogion i fwrw ati o ddifrif i wella trefniadau craffu. Mae'r trefniadau craffu aneffeithiol yn rhwystredig i aelodau etholedig a swyddogion fel ei gilydd ac yn cael effaith andwyol ar lefelau ymddiriedaeth rhwng aelodau etholedig y pwyllgor craffu a swyddogion y Cyngor. Roedd aelodau etholedig o'r farn bod angen sefydlu is-grwpiau craffu anffurfiol newydd er mwyn mynd at wraidd yr amrywiol faterion yr oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt amdanynt, ond nid yw'n glir sut mae'r is-grwpiau hyn yn rhan o fframwaith llywodraethu ehangach y Cyngor.

25 Mae rhaglenni gwaith y Pwyllgor Craffu yn rhy fawr o hyd ac nid oes trefn blaenoriaeth. At hynny, nid yw'r wybodaeth a roddir i'r pwyllgor Craffu yn ddigon cynhwysfawr nac ystyrlon i ategu trefniadau craffu effeithiol.

26 Mae'r Tîm Gwella Craffu a llawer o'r aelodau etholedig yn awyddus i roi gwelliannau ar waith ond nid ydynt wedi'u grymuso o hyd i chwarae rhan fwy ragweithiol.

## Nododd AGGCC fod trefniadau sefydliadol y Cyngor yn cyfrannu at heriau sylweddol o ran cyflawni ei gyfrifoldebau statudol am bobl hŷn ag anghenion cymhleth

27 Daeth Arolygiad diweddar gan AGGCC o Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, yn seiliedig ar waith maes a wnaed ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2014, i'r casgliad canlynol:

> 'Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn wynebu heriau sylweddol o ran cyflawni ei gyfrifoldebau statudol am bobl hŷn ag anghenion cymhleth. Er bod aelodau staff unigol a rheolwyr yn dangos lefel uchel o ymrwymiad proffesiynol ac yn gwneud eu gorau dros y bobl roeddent yn eu helpu, canfu'r arolygiad nad yw'r trefniadau sefydliadol gan gynnwys y strwythur a'r model gweithredu cyfredol yn cefnogi arfer effeithiol ac effeithlon yn aml. Bu diwylliant o ymateb i argyfwng yn hytrach na gweithio mewn ffordd ragweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i gefnogi gan nodi canlyniadau ac achub y blaen ar broblemau pellach. Mae'r ffordd hon o weithio wedi cyfrannu at y problemau yng nghartrefi preswyl y Cyngor ei hun gan fod pobl yn cael eu lleoli yno'n amhriodol pan fo trefniadau eraill wedi mynd ar chwâl a bod angen brys am ateb. Fodd bynnag, gwaethygwyd hyn ymhellach gan y methiant i gwblhau adolygiadau prydlon sy'n galluogi pobl i aros mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn cyflawni eu canlyniadau ac yn eu rhoi nhw ac eraill mewn perygl sylweddol mewn rhai achosion.
>
> Ceir rhai arwyddion addawol o welliant fel y ganolfan a weithredir gan dîm rhyddhau'r ysbyty, y tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac mae'n galonogol bod Uwch Reolwyr yn ymwybodol o rai o'r pryderon a amlinellir yma ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, bydd graddfa'r newidiadau sy'n ofynnol yn y gwasanaethau i oedolion; o gomisiynu i adolygu strwythurau a sefydlu'r systemau a'r prosesau sydd eu hangen i gefnogi'r rhain yng nghyd-destun heriau cyllidebol sylweddol a'i gyfrifoldebau cynyddol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru); yn gofyn am ymrwymiad llawn Aelodau a'r Weithrediaeth i ddatblygu a darparu gweledigaeth a rennir ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.'

## Mae trefniadau rheoli ariannol wedi gwella, ond mae angen datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig yn fanylach er mwyn eu mantoli dros gyfnod hwy o amser ac mae angen ymdrin â rhai problemau o ran capasiti yn yr adran gyllid er mwyn parhau â'r gwelliannau

28 Atgyfnerthwyd gallu cynllunio strategol y Cyngor drwy wella'r trefniadau ar gyfer datblygu'r cynllun ariannol tymor canolig. Bellach rhoddir mwy o ystyriaeth i ddemograffeg leol, rhagamcanion o bwysau ariannol a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, yn ogystal â blaenoriaethau a risgiau'r Cyngor. Fodd bynnag, dim ond y flwyddyn gyntaf (2015-16) y mae cynllun ariannol cytbwys sydd wedi'i gostio'n llawn yn ei chwmpasu, gan ragweld amrywiol lefelau o ddiffyg ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill (2016-17 i 2018-19), yn amrywio o £7.3 i £10.7 miliwn, gan ragdybio amrywiol lefelau o leihad mewn grant gan Lywodraeth Cymru.

29 Mae angen gwella cynllunio ariannol strategol drwy ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig sy'n mantoli'r sefyllfa ariannol dros gyfnod amser hwy. Bydd y gwaith cynllunio hwn yn cynnwys gwneud penderfyniadau cynharach ar ddatblygu cynigion ar gyfer arbedion ariannol ac ad-drefnu gwasanaethau i gefnogi unrhyw arbedion cost sydd wedi eu nodi. Bydd angen i'r cynllun hefyd gynnwys unrhyw gynnydd mewn costau lle roedd angen buddsoddi mewn gwasanaethau. Bydd angen gwneud rhagdybiaeth hefyd am bwysau costau tebygol yn y dyfodol, galw am wasanaethau, lefel yr arian grant gan Lywodraeth Cymru a lefel y dreth gyngor.

30 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a chofnodi arbedion ariannol sydd wedi'u cyflawni wedi gwella. Yn ogystal, bu gwelliannau o ran y ffordd y caiff cronfeydd 'buddsoddi i arbed' eu defnyddio i ategu buddsoddiadau er mwyn gallu gwneud arbedion wrth ddarparu gwasanaethau. Atgyfnerthwyd statws rheoli ariannol hefyd drwy gyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr i'r Cabinet a'r uwch dîm arwain.

31 Yn ddiweddar, gwnaeth y Cyngor swydd y Pennaeth Cyllid Dros Dro yn benodiad parhaol, ar ôl methu â recriwtio neb i'r swydd yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae swydd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yn wag ar hyn o bryd, felly hefyd swydd y Prif Gyfrifydd. Yn ogystal, cafwyd ymddiswyddiadau a newidiadau o ran nifer o aelodau o staff allweddol yn yr Adran Gyllid yn ddiweddar. Rydym yn ymwybodol o gynlluniau i ailstrwythuro'r Adran Gyllid a hefyd i lenwi swyddi allweddol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor reoli'r sefyllfa hon yn ofalus er mwyn cynnal y gwelliannau a wnaed ac er mwyn sicrhau y cynhelir ei ffocws ar yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu. Mae angen iddo hefyd sicrhau y caiff cynlluniau cadarn eu datblygu a'u cyflawni ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 a thu hwnt, yn erbyn cefndir o ostyngiadau cyllidebol a'r pwysau ariannol parhaus.

32 Rydym wedi ystyried yn fanwl record ariannol y Cyngor, y sefyllfa ariannol alldro ar gyfer 2013-2014 a'r cynlluniau a ddatblygwyd er mwyn mantoli'r gyllideb ar gyfer 2014-15. Rydym hefyd yn ddiweddar wedi ystyried y cynlluniau a ddatblygwyd ar gyfer cyllideb 2015-16 a'r broses o ddiweddaru'r cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer blynyddoedd dilynol.

33 Nodir prif ganfyddiadau ein gwaith hyd yma isod:

- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gydbwyso ei sefyllfa ariannol blynyddol heb orfod defnyddio ei gronfa gyffredinol wrth gefn, a fu ar lefel o £5 miliwn am beth amser. Yn unol â'i Bolisi Cronfeydd Wrth Gefn, mae'r Cyngor o'r farn mai dyma'r lefel ofynnol ar gyfer darparu sicrwydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol a all godi yn ystod unrhyw flwyddyn.
- Nododd y Cyngor ei ddiffyg cyllidebol yn gywir wrth gynllunio ar gyfer 2013-14, datblygodd gynlluniau arbedion priodol a'i alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn oedd tanwariant o £2.5 miliwn. O ganlyniad i'r tanwariant hwn, ynghyd â chronfa wrth gefn nas defnyddiwyd o tua £1.5 miliwn, llwyddodd y Cyngor i ychwanegu at ei gronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol a helpu i gyflawni rhaglenni arbedion yn y dyfodol.
- Nododd y Cyngor amrywiaeth o arbedion (penodol a chyffredinol) yn effeithiol a llwyddodd i'w cyflawni er mwyn bodloni ei ddiffyg cyllidebol. Roedd rhai meysydd lle roedd cynlluniau arbedion yn cael eu datblygu o hyd ar ddechrau'r flwyddyn, ond wedyn fe'u datblygwyd yn ystod y flwyddyn ac fe'u cyflawnwyd yn ddigonol i gyrraedd yr alldro ariannol.
- Datblygwyd y fframwaith corfforaethol i ategu'r broses o roi'r cynlluniau ariannol ar waith yn ystod y flwyddyn ac mae gwybodaeth monitro ariannol bellach yn fwy tryloyw. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd rhannau o'r wybodaeth arbedion a monitro yn anodd i'w holrhain yn ystod y flwyddyn. Cafodd y Cyngor gymorth gan bartner masnachol i ddatblygu rhai o'i gynlluniau arbedion ac i fonitro a chyflawni'r arbedion a ddeilliodd o'r cynlluniau hynny.
- Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio corfforaethol i ategu ei gynllun gwella corfforaethol sy'n trosi'n amcanion gwella a chynlluniau gwasanaeth unigol. Gellid gwella'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau ariannol a'r cynlluniau gwella a'r cynlluniau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau a wneir neu fuddsoddiadau a dynnir yn ôl o fewn blaenoriaethau gwasanaeth yn fwy eglur.

- Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig, sy'n cwmpasu cyfnod o bedair blynedd o 2014-15 i 2017-18. Roedd y cynllun hwn yn rhagori ar gynlluniau blaenorol gan ei fod yn cynnwys mwy o fanylion, a chafodd blynyddoedd yn y dyfodol eu datblygu cymaint â phosibl a'u cysylltu â newidiadau disgwyliedig o ran galw a demograffeg. Mae'r ansicrwydd o ran lefel y grant cynnal refeniw blynyddol yn ei gwneud hi'n anos blaengynllunio. Fodd bynnag, datblygwyd pob agwedd arall ar y cynllun ac roedd y cynllun wedi'i fantoli cymaint â phosibl ar sail amcangyfrifon o lefelau'r grant cynnal refeniw. Mae cynllun ariannol tymor canolig newydd bellach wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y cyfnod pedair blynedd o 2015-16 sy'n rhagweld sefyllfa ariannol gytbwys ar gyfer dim ond 2015-16 ond nid y blynyddoedd diweddarach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu polisïau clir ar ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn, er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u neilltuo at ddibenion penodol felly prin yw'r cyfleoedd i'w defnyddio yn ystod unrhyw flwyddyn benodol.
- Mae fframwaith y Cyngor ar gyfer adolygu a herio ei berfformiad ariannol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwellwyd atebolrwydd a chaiff gwell rheolaeth ei harfer dros adrannau sy'n gorwario.

## Mae'r cynnydd diweddar o ran datrys gwendidau mewn trefniadau rheoli pobl yn amlwg ac mae cynlluniau ar waith i ddechrau mynd i'r afael â materion cynllunio'r gweithlu, ond mae angen gwerthuso mentrau i leihau salwch ymhlith y staff ymhellach

34 Gwnaethom adolygu cynnydd y Cyngor wrth wella ei drefniadau rheoli pobl mewn dau gam er mwyn adlewyrchu camau datblygu cynlluniau gwella'r Cyngor ei hun. Asesodd ein hadolygiad cam 1 y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i ymdrin â'n hargymhelliad statudol. Yn ystod cam 2, byddwn yn adolygu dull y Cyngor o ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a defnyddio ei weithlu ar yr adeg briodol yn unol â chynnydd y Cyngor.

35 Daeth ein hadolygiad Cam 1, y cyflwynwyd adroddiad arno i'r Pwyllgor Craffu Cynllunio a Datblygu Cymunedol ar 19 Tachwedd 2014, i'r casgliad bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran ymdrin â'n hargymhelliad ond nad yw rhai trefniadau wedi'u gweithredu'n llawn eto'. Er enghraifft: cwblhau arfarniad perfformiad 360° ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth; datblygu Cynllun Pobl ar gyfer 2013-2017; ymdrin â diffygion yn swyddogaeth Datblygu'r Sefydliad drwy ailgyfeirio arbenigedd ac adnoddau ychwanegol drwy uwch arbenigwr Adnoddau Dynol; a gwella'r ffordd y caiff gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad eu darparu ar draws y Cyngor. Nodwyd cynnydd hefyd wrth ddarparu gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad penodol i reolwyr i'w helpu i reoli perfformiad eu staff yn well.

36 Cafwyd gennym fod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ers yr Asesiad Corfforaethol yn 2013 a'r gwaith pellach a wnaed gennym ddechrau 2014. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl; ac mae'r Cyngor wedi ymdrin â'n pryderon o ran secondiad Barnardos.

37 Roedd y Cyngor wedi cynnal ymarfer ymchwiliol i ystyried 'opsiynau' posibl ar gyfer darparu gwasanaethau Adnoddau Dynol trafodol yn y dyfodol. Esblygodd yr ymarfer hwn yn gyflym o ystyried egwyddorion lefel uchel o ran yr opsiynau i ddethol darparwr gwasanaethau Adnoddau Dynol trafodol yn gynnar. Fodd bynnag, gohiriwyd y cynigion cychwynnol pan dynnodd y dewis gyflenwr yn ôl o'r broses arfarnu opsiynau. Ceir crynodeb o'r ymarfer hwn isod:

- Ar 25 Chwefror 2014, gwnaed penderfyniad gan y Cyngor i sefydlu Partner Strategol Cyngor Cyfan - cynnig 108 o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Ar 31 Mawrth 2014, cyflwynwyd yr opsiynau i'r Pwyllgor Craffu Cynllunio a Datblygu Cymunedol. Roedd yr opsiynau hynny fel a ganlyn: aros yn fewnol; gwasanaeth a rennir gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill; trefnu contract allanol gyda darparwr o'r sector cyhoeddus; neu drefnu contract allanol gyda darparwr o'r sector preifat.

- Ar yr amod y byddai'r Pwyllgor yn cytuno i barhau i gymryd rhan yn y prosiect, awgrymwyd y dylid sefydlu Grŵp Adolygu Polisi er mwyn monitro'r prosiect wrth iddo fynd rhagddo ac y dylai'r Grŵp Adolygu Polisi hwnnw ystyried manylion pellach am yr amrywiol opsiynau. 'Ymarfer craffu byr fyddai hwn a'r bwriad fyddai ei gwblhau erbyn mis Mai 2014'.
- Ar 12 Mai 2014, cyflwynwyd Adroddiad i'r Cabinet a luniwyd gan y Pwyllgor Craffu Cynllunio a Datblygu Cymunedol, ynghylch datblygu opsiynau ar gyfer darparu Gwasanaethau Corfforaethol/Trafodol Cyngor Cyfan. Y cynnig a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw oedd y dylid adolygu'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cynllunio a Datblygu Cymunedol a 'derbyn yr opsiwn dewisol fel y'i nodwyd gan y Pwyllgor Craffu a gwahodd y Pwyllgor i sefydlu Grŵp Adolygu Polisi bach i gynnal adolygiad manylach o'r model arfaethedig ar gyfer partner o'r sector cyhoeddus, o'i gymharu â'r model mewnol ac i wneud argymhellion i'r cabinet maes o law o ran yr achos busnes terfynol'.
- Gan fod y darparwr posibl a nodwyd o'r sector cyhoeddus wedi tynnu'n ôl o'r broses arfarnu opsiynau, mae'r Cyngor wedi gohirio'r broses arfarnu opsiynau hon er mwyn ailystyried y ffordd ymlaen mewn perthynas â'r pedwar opsiwn.

38 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Cynllun Arfarnu Perfformiad 360° ar-lein i'w uwch swyddogion ond ni chafodd ei gyflwyno i bob aelod o staff perthnasol oherwydd costau. Fodd bynnag, mae'r canllawiau arfarnu yn dal i ddisgwyl i uwch swyddogion gasglu amrediad eang o dystiolaeth a safbwyntiau ar gyfer y broses arfarnu. Nid yw'n glir sut y bydd uwch swyddogion yn cyflawni'r disgwyliad hwn o'r cynllun arfarnu perfformiad yn effeithiol.

39 Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu cynllun gweithlu ac olyniaeth integredig er mwyn cefnogi a datblygu ei weithlu nawr ac yn y dyfodol i ddiwallu anghenion y sefydliad. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu templed ar gyfer cynllunio'r gweithlu, data cymharol â sefydliadau eraill a strategaethau cynllunio olyniaeth. Nid yw'n eglur sut mae'r oedi wrth gwblhau'r broses o ailstrwythuro uwch rheolwyr wedi effeithio ar y gwaith hwn. Mae effaith yr oedi wrth ailstrwythuro wedi amrywio ar draws y Cyngor. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym na fu llawer o effaith o gwbl ond dywedodd eraill fod yr ansicrwydd wedi achosi problem. Byddwn yn adolygu dull y Cyngor o ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a defnyddio ei weithlu unwaith eto yn ystod 2015 wrth i'r trefniadau ailstrwythuro gael eu rhoi ar waith.

40 Ers cwblhau ein gwaith maes ym mis Rhagfyr 2014, mae'r Cyngor wedi cwblhau Cynllun Gweithlu drafft ar gyfer 2015-16 gyda chynllun gweithredu cysylltiedig sy'n cynnwys chwe amcan clir ag is-gamau cysylltiedig. Mae gan y cynllun gweithredu y potensial i ddarparu dull mwy cydgysylltiedig ac sy'n edrych i'r dyfodol ar gyfer cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw staff. Mae ganddo hefyd y potensial i gyflawni canlyniadau wedi'u targedu ar gyfer gwella amrywiaeth gweithlu'r Cyngor, fel ei fod yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gweithredu yn nodi perchenog ar gyfer pob cam nac amserlen benodol ar gyfer cwblhau pob cam.

41 Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio cyn-asesiad o'i drefniadau rheoli pobl o dan y Fframwaith Safonol Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP). Daeth ei adroddiad, dyddiedig mis Ionawr 2015, i'r casgliad na chyflawnwyd chwech o'r 10 dangosydd safon craidd ac argymhellwyd asesiad pellach ym mis Mawrth 2016. Mae'r meysydd arbennig y mae angen eu gwella fel a ganlyn:

- mesur effaith hyfforddiant ac addysgu staff;
- sicrhau bod pob un o gyflogeion y Cyngor yn cael "Eich Adolygiad" datblygedig a chymhellol, sy'n gysylltiedig â gwerthoedd y Cyngor ei hun; ac
- datbygu'r gallu i feddwl yn strategol a chymhwysedd Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr rheng flaen.

42 Mae cynhyrchu'r cyn-asesiad hwn ar gyfer ei waith BMP yn ddatblygiad cadarnhaol ac, ynghyd â'r cynllun gweithlu drafft, mae ganddo'r potensial i ddatblygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a rheoli'r dalent y mae o'r farn y bydd ei hangen arno yn y dyfodol.

43 Cyflwynodd y Cyngor amrywiaeth o fentrau a arweiniodd at ostyngiad o ran lefelau salwch cyffredinol o 9.26 o ddiwrnodau a gollwyd fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn 2012-13, i 8.87 a gollwyd yn 2013-14. Fodd bynnag, ar ôl gwelliannau pellach yn ystod rhan gyntaf 2014, erbyn mis Tachwedd, roedd lefelau salwch cronedig y Cyngor cyfan 10 y cant yn uwch na'r un mis yn ystod y flwyddyn flaenorol. Priodolodd y Cyngor y dirywiad hwn o ran lefelau salwch i gynnydd yn nifer yr achosion o salwch hirdymor. Mae angen gwerthuso mentrau i leihau absenoldeb oherwydd salwch ymhellach er mwyn sicrhau y byddant yn ymdrin â'r cynnydd diweddar mewn lefelau salwch ac adfer y gostyngiad hirdymor dymunol yn y lefelau hynny.

44 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun 'Total Reward' i'w gyflogeion. Mae'r cynllun gwerthuso swyddi hwn yn mynd i'r afael â materion cyflog cyfartal ac yn symleiddio'r 100+ o raddau cyflog a oedd ar waith gynt o fewn y Cyngor. Gallai'r cynllun hefyd ymdrin â phroblemau recriwtio a chadw hirsefydledig y Cyngor. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu fesul cam ar hyn o bryd, ond mae wedi cymryd yn hirach nag a fwriadwyd gan y Cyngor i ddechrau.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion o ran TGCh, ond erys gwendidau mewn rhai trefniadau llywodraethu ac ansicrwydd o ran ei gynlluniau ar gyfer parhad pe byddai digwyddiad nas rhagwelwyd

45 Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn argymhellion yr Asesiad Corfforaethol a gyfeiriodd at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y Cyngor. Er enghraifft, mae gan y Cyngor gofnod da o ymateb i achosion o dorri rheolau diogelwch gwybodaeth a rhoi gwybod amdanynt, lle y bo'n briodol, i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelodau o staff y Cyngor y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i roi gwybod am unrhyw achosion o'r fath, ond nid oeddent bob amser yn glir o ran:

- y dull swyddogol ar gyfer rhoi gwybod am achosion o dorri rheolau diogelwch gwybodaeth;
- pwy yn y Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gwybodaeth y dylent roi gwybod iddynt am achosion o'r fath; neu
- pwy yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

46 Ar hyn o bryd, mae un o swyddogion y Cyngor yn gyfrifol am dair rôl, sef:

- Pennaeth y Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gwybodaeth - darparu cyfeiriad strategol ar gyfer cyflwyno TGCh;
- Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar ran y Cyngor - cymryd perchenogaeth gyffredinol dros Bolisi Risg Gwybodaeth y Cyngor; a
- Cadeirydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth - sy'n cynnwys y gofyniad i graffu ar gamau gweithredu ar yr adroddiad risg blynyddol ac ymatebion i ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth.

47 Mae'r ffaith mai un unigolyn sy'n gyfrifol am y tair rôl hyn yn creu achos o wrthdaro buddiannau gan mai un unigolyn sy'n goruchwylio'r broses o ddarparu'r gwasanaeth a hefyd yn craffu ar y broses honno. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod achos anochel o wrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â'r sefyllfa hon ac wedi ymrwymo i wneud trefniadau amgen.

48 Mae trefniadau hyfforddiant diogelwch gwybodaeth ar waith gan y Cyngor a nododd aelodau o staff sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant ei fod yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol.

49 Nid yw'r Cyngor wedi profi cynlluniau parhad busnes eto ac nid yw'n gwybod a fyddai'n gallu cynnal gwasanaethau critigol pe cafwyd methiant catastroffig yn ei systemau TG critigol. Dylai'r Cyngor brofi ei gynllun parhad busnes technoleg gwybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'r disgwyl. Yn arbennig, dylai brofi senario lle nad yw'r ddwy ystafell gweinydd yn y Ganolfan Ddinesig ar gael er mwyn canfod pa mor hir y bydd yn ei gymryd i drefnu ystafell gweinydd oddi ar y safle a pha effaith a gaiff hyn ar ei amserlen ar gyfer adfer ei systemau critigol.

## Bu rhai gwelliannau o ran trefniadau cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chaiff y broses o graffu ar berfformiad ei herio ddigon i sicrhau gwelliannau parhaus

### Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 mewn perthynas â'i Gynllun Gwella ar gyfer 2014-15

50 Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella a'i grynodeb o'i Gynllun Gwella yn Gymraeg ac yn Saesneg a oedd yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar 28 Mai 2014, ardystiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

51 Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau y neilltuir digon o amser ac y rhoddir digon o ofal i brawfddarllen dogfennau yn y dyfodol er mwyn osgoi'r gwallau a'r hepgoriadau diangen a oedd yn amlwg yn y Cynlluniau Gwella terfynol a gyhoeddwyd.

52 Mae'r Cynllun Gwella yn darparu disgrifiad o bob Amcan Gwella ar gyfer y Cyngor yn 2014-15 ac esboniad pam bod pob Amcan yn bwysig i'r Cyngor. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu disgrifiad clir o'r broses ymgynghori a'r rhesymeg dros ddewis amcanion.

53 Cyhoeddwyd y Cynllun Gwella a'i Grynodeb ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, ar yr adeg y gwnaethom edrych ar wefan y Cyngor, nid oedd dolen uniongyrchol o'r hafan. Heb roi digon o sylw iddo ar wefan y Cyngor, nid yw'n debygol y bydd cymaint â phosibl o drigolion Casnewydd yn gweld y Cynllun Gwella.

54 Mae'r Cyngor yn cynhyrchu cyhoeddiad o'r enw 'Newport Matters' a gaiff ei ddosbarthu i gartrefi a busnesau yng Nghasnewydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i flaenoriaethau a'i wasanaethau. Cynhwyswyd crynodeb o Amcanion Gwella'r Cyngor yn rhifyn mis Mai 2014 o Newport Matters, sy'n fuddsoddiad calonogol gan y Cyngor i wella lefelau ymgysylltu dinasyddion â busnes y Cyngor.

### Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi gwella ond ni chânt eu rhoi ar waith yn gyson ar draws gwasanaethau ac erys gwendidau o ran rhai o'r systemau ansawdd data a'r trefniadau craffu ar berfformiad

55 Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w drefniadau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw adrannau gwasanaeth bob amser yn cydymffurfio â'r prosesau a'r rheolaethau cryfach a gynlluniwyd i sicrhau ansawdd data. Mae angen i'r Cyngor sicrhau y caiff ei drefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad eu gweithredu'n gadarn gan adrannau gwasanaeth.

56 Gwnaethom archwilio chwech o fesurau perfformiad y Cyngor a'r systemau data sy'n eu cefnogi. Gwnaethom edrych ar bedwar o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC), ac mae dau ohonynt yn fesurau perfformiad a ddatblygwyd gan y Cyngor ei hun. Dewiswyd y chwe mesur hyn gennym am ystod o resymau, ond yn bennaf gan eu bod yn rhan o'r dystiolaeth i ategu'r broses o roi Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2014-15 ar waith.

57 Wrth gynnal adolygiad manwl o'r mesurau perfformiad a ddewiswyd, nodwyd gennym fod y ddau fesur canlynol yn cynnwys systemau data a oedd yn addas at y diben ac yn cael eu rhedeg yn effeithiol:

- EDU/017 – canran y Disgyblion 15 oed ar 31 Awst y flwyddyn flaenorol mewn Ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, a Mathemateg); ac

- SCC/033(f) – canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal gynt y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed.

58 Cafwyd gwendidau sylweddol gennym yn y systemau data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r ddau DSC canlynol:

- SCA/001 - cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd. Ceir trefniadau aneffeithiol rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol o ran pennu beth sy'n cyfateb i reswm sy'n ymwneud â 'Gofal Cymdeithasol' dros oedi wrth drosglwyddo gofal. Bu gwelliannau gweithdrefnol ers mis Hydref 2013, a bellach caiff y Gwasanaethau Cymdeithasol eu hysbysu gan y Bwrdd Iechyd am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, er mwyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol allu dilysu'r achosion hyn. Fodd bynnag, mae'r ffaith y gall y Bwrdd Iechyd newid y cyflwyniad hyd yn oed ar ôl cwblhau'r broses ddilysu yn wendid systemig damcaniaethol a dim ond Llywodraeth Cymru a all ymdrin â'r gwendid hwnnw fel perchennog y system wybodaeth am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

- EDU/015a – Cyhoeddi datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig terfynol o fewn 26 wythnos. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor yn mynnu defnyddio'r diffiniad anghywir i gyfrifo'r dangosydd. Mae'r Cyngor yn defnyddio Dyddiad y Panel AAA fel y man cychwyn yn hytrach na'r dyddiad pan ddaeth y plentyn at sylw'r Cyngor gan ei fod o'r farn bod y prawf o ran pryd y daeth plentyn at sylw'r Cyngor yn rhy amwys. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol ei fod wedi methu'n barhaus â chydymffurfio â diffiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y DSC hwn. Roeddem eisoes wedi tynnu sylw'r Cyngor at y ffaith ei fod yn fwriadol yn methu â chydymffurfio â diffiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y DSC hwn. Rydym bellach wedi gwneud Argymhelliad Statudol bod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff yr holl ddata ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol eu casglu a'u cyhoeddi yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru.

59 Canfuwyd mân wendidau gennym mewn dwy system data arall. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau casglu data cadarn ar gyfer ei ddangosyddion perfformiad hunanddiffiniedig a sicrhau y cedwir llwybr archwilio cyflawn o'i brosesau mewnol ar gyfer dilysu data dangosyddion perfformiad.

60 Mae amgylchedd rheoli ac adolygu'r Cyngor wedi'i hadeiladu ar gyfuniad o adolygiad rheoli canol blwyddyn, a phroses dilysu data diwedd y flwyddyn. Mae meysydd gwasanaeth yn cwblhau hunanasesiad erbyn 31 Rhagfyr gan ddefnyddio'r data a'r gweithrediad rheoli ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn adolygu nifer o ddangosyddion perfformiad er mwyn dilysu cywirdeb y data. Mae defnyddio'r ddau adnodd hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb y data a gofnodir am ddangosyddion perfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, caiff rhai dangosyddion lleol eu diffinio er mwyn cynnwys data, a all newid yn y cyfnod y tu hwnt i 31 Mawrth, er eu bod yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol. Canfuwyd nad yw'r data a ddelir gan systemau gwasanaeth y Cyngor wedi'u cydamseru â system rheoli perfformiad y Cyngor - sef VIEWS. O ganlyniad, nid gwerth y dangosydd perfformiad fel y'i cadarnheir gan yr hunanasesiad a ddelir yn VIEWS. Rydym wedi gwneud Cynnig ar gyfer Gwella i'r Cyngor y dylai ei systemau gwybodaeth fewnol ei hun (VIEWS) fod yn gyson â'r data terfynol wedi'u dilysu.

61 Gwnaethom adolygu'r adroddiadau perfformiad gwell a gaiff eu hystyried gan y Cyngor, y Cabinet, y Bwrdd Perfformiad a'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r adroddiad yn cynnwys amcanion lefel uchel y Cyngor ac yn nodi manylion y mesurau ategol a'r data targed. Mae'r Cyngor yn defnyddio graddfa Coch, Oren, Ambr a Gwyrdd (ROAG) i asesu perfformiad cyffredinol pob amcan gwella. Mae'r adroddiadau perfformiad hefyd yn defnyddio graddfa Coch, Ambr a Gwyrdd (RAG) i helpu i asesu perfformiad gwirioneddol y Cyngor mewn perthynas â phob un o'i fesurau perfformiad unigol o gymharu â'r targed a bennodd yn flaenorol iddo'i hun. Er enghraifft, os yw'r perfformiad gwirioneddol yn well na'r targed a ddatganwyd, yna rhoddir lliw gwyrdd i'r dangosydd. Ond, os yw'r perfformiad gwirioneddol yn is na'r targed a ddatganwyd, yna rhoddir lliw coch i'r dangosydd.

62 Cafwyd gennym fod defnyddwyr yr adroddiadau perfformiad yn dibynnu'n helaeth ar y codau lliw hyn wrth ddarllen yr adroddiadau. Mae'r dull gweithredu hwn yn beth da ynddo'i hun, ond mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y Cyngor hefyd yn pennu targedau heriol iddo'i hun. Mae pennu targedau heriol ar gyfer dangosyddion perfformiad yn allweddol o ran effaith cynlluniau'r Cyngor a'i drefniadau i wella'r fframwaith rheoli perfformiad, ac mae'n adlewyrchu uchelgais a diwylliant y sefydliad.

63 Atgyfnerthwyd y broses a ddefnyddir gan y Cyngor i bennu targedau ar gyfer ei ddangosyddion perfformiad. Mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn cynnig targedau, a gaiff wedyn eu cadarnhau i ddechrau gan uwch swyddogion y Cyngor ac wedyn gan aelod priodol y cabinet. Yn olaf, caiff y targedau eu hystyried a'u cymeradwyo gan y pwyllgor craffu priodol. Fodd bynnag, cafwyd gennym nad yw'r targedau a bennir gan y Cyngor yn or-heriol o gymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru ac nad yw'r pwyllgorau craffu wedi herio unrhyw rai o'r targedau arfaethedig ar gyfer dangosyddion perfformiad.

64 Ym mis Mawrth 2015 cytunodd Uwch Dîm Arwain y Cyngor ar set o egwyddorion ar gyfer pennu targedau. Gwnaethant gytuno y bydd pob targed ar gyfer dangosyddion perfformiad:

- yn cyrraedd cyfartaledd Cymru am y flwyddyn flaenorol o leiaf;
- yn gwella ar berfformiad y Cyngor ei hun o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; ac
- wedi'i gosod yn uwch na lefel chwartel 4 Cymru gyfan.

65 Bydd yr egwyddorion pennu targedau hyn, os cant eu cymhwyso mewn ffordd gyson a chadarn, yn sicrhau'r uchelgais angenrheidiol o ran pennu targedau ac yn cryfhau effaith trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.

66 Ategwyd yr adroddiadau perfformiad esblygol gan drefniadau cryfach ar gyfer casglu, coladu a chyflwyno data. Mae'n galonogol bod y swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu'r adroddiadau a'r systemau rheoli perfformiad yn cydweithio gyda defnyddwyr yr adroddiadau i nodi awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach a'u cynnwys.

67 Un o amcanion gwella'r Cyngor yw Rheoli Gwastraff. Yn 2013-14, anfonwyd 45.08 y cant o'r gwastraff dinesig i safleoedd tirlenwi, sef gwelliant o 9.3 y cant o gymharu â lefel 2012-13. Fodd bynnag, o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, yn 2012-13, perfformiad y Cyngor oedd y perfformiad gwaethaf ond un yng Nghymru, ond gwellodd ei safle i 19 allan o 22 yn 2013-14. Yn bwysicach na hynny, methodd perfformiad y Cyngor yn 2013-14 â chyflawni'r targed statudol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Gall Llywodraeth Cymru roi cosbau ariannol i gynghorau sy'n methu â chyflawni'r targed statudol.

68 Er gwaethaf ei safle isel a'i fethiant i gyflawni targed statudol Llywodraeth Cymru, gan olygu ei fod o ganlyniad ymhlith y pedwar Cyngor yng Nghymru y gellid rhoi cosb ariannol iddynt, roedd y Cyngor o'r farn bod ei berfformiad o ran Rheoli Gwastraff yn 2013-14 yn Wyrdd (Ardderchog). Rydym o'r farn bod gradd y Cyngor ei hun, sef 'Ardderchog', yn gamarweiniol. Gall defnydd y Cyngor o sgoriau ROAG neu RAG o fewn ei adroddiadau perfformiad fod yn ddefnyddiol iawn i ddarllenwyr ddarllen drwy adroddiadau cymhleth yn gyflym a nodi meysydd pryder posibl, ond mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y Cyngor yn pennu targedau heriol iddo'i hun.

69 Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu hyfforddiant i swyddogion ac aelodau etholedig ar ddefnyddio ei adroddiad perfformiad a phennu targedau effeithiol. Mae'r hyfforddiant hwn yn hanfodol gan ein bod wedi dod o hyd i dystiolaeth nad yw effaith y trefniadau adrodd ar berfformiad newydd cystal ag y gallai fod, oherwydd diffyg dealltwriaeth defnyddwyr, o ran galluogi pob aelod etholedig i herio perfformiad gwasanaethau a chraffu arnynt yn effeithiol.

70 Mae'r canllawiau a'r templed cynllunio gwasanaethau yn helpu rheolwyr i ysgrifennu cynlluniau gwasanaeth. Mae'r canllawiau a'r templedi yn datgan yn glir strwythur a chynnwys y cynlluniau ac yn darparu enghreifftiau i arwain rheolwyr. Cyflwynir y cynlluniau gwasanaeth mewn ffordd resymegol gyda strwythur cadarn. Mae adolygiad o'r cynlluniau gwasanaeth yn cadarnhau'r dull gweithredu cyson a ddefnyddir gan reolwyr wrth gwblhau'r cynlluniau gyda phob adran yn cael ei chwblhau mewn modd cynhwysfawr. Er bod y templed ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys yr angen i gysylltu â'r Cynllun Gwella Corfforaethol, y Strategaeth Integredig Sengl a chynlluniau a strategaethau eraill y Cyngor, nid yw'r cysylltiadau rhwng canlyniadau a blaenoriaethau gwasanaeth a'r strategaethau a'r cynlluniau hyn bob amser yn glir.

71 Mae'r Cyngor wedi gwella ei ddull gweithredu o ran ei gofrestr risg gorfforaethol a'i ffordd o'i chyflwyno. Mae'r gofrestr risg bellach yn cynnwys sgôr risg liniaru cyn ac ar ôl ar ddyddiad asesu a dadansoddiad o debygolrwydd ac effaith y risg honno. Mae'r gofrestr yn cynnwys camau gweithredu cyfredol i ymdrin â phob risg ac yn pennu cyfrifoldeb i uwch swyddogion, aelod o'r cabinet a'r pwyllgor craffu. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor egluro sut y gellid uwchgyfeirio risgiau lefel gwasanaeth i'r gofrestr risg gorfforaethol.

72 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull gweithredu o ran rheoli asedau ar ôl datblygu ei gynllun rheoli asedau strategol ym mis Chwefror 2013. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd hyd at 2018. Caiff y cynllun ei gefnogi gan y cyfarwyddwr strategol ar gyfer Gwasanaethau Eiddo a'i reoli gan y Grŵp Rheoli Asedau Strategol.

73 Diweddarwyd y system rheoli gwybodaeth am eiddo gan ddefnyddio data archwiliedig ac mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn llunio data ar brydlesau. Mae'r Gyd-fenter Eiddo yn arwain y gwaith hwn. Sefydlwyd arolygon cyflwr treigl ar sail blaenoriaeth a chysonwyd gwybodaeth ariannol i'r systemau cyllid. Adolygwyd targedau gwella perfformiad a chynhwyswyd dangosyddion newydd o fewn cynlluniau busnes.

## Lluniwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad, Cynllun Cyfathrebu a Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi i helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ond prin yw'r asesiad o gynnydd ac effaith a ddarperir gan y dogfennau hyn a chyfyngedig yw eu gwerth o ran gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

74 Gwnaethom adolygu cynlluniau gwasanaeth y Cyngor a chanfod bod naw o'r 10 cynllun yn cyfeirio at gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Roedd lefel y manylion yn amrywio ym mhob cynllun oherwydd natur y gwasanaeth. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor bellach yn cynnwys enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu ac yn cyfeirio at y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl. Mae'r Cyngor yn derbyn, yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, fod angen rhagor o waith i asesu effeithiolrwydd ei drefniant llywodraethu cydweithredol.

75 Adolygwyd y cylch gorchwyl ar gyfer pob haen o strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a bellach ceir gwell eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol grwpiau. Mae posibilrwydd y caiff rolau eu dyblygu rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Grŵp Gweithredol, a chydnabuwyd hyn. Ceir tystiolaeth hefyd o gyfranogiad gan sefydliadau'r trydydd sector yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol drwy adolygiad o'r cylch gorchwyl a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae adolygiad o gofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd yn nodi bod presenoldeb rhai sefydliadau penodol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn afreolaidd gyda chynrychiolaeth anghyson.

76 Er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, lluniwyd cynllun prosiect i gyflawni'r Asesiad Anghenion Unedig ar gyfer 2014-15. Mae cynllun y prosiect yn datgan yn glir gamau gweithredu a cherrig milltir allweddol i'w cyflawni er mwyn bodloni'r dyddiad cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2014. Yn ogystal, lluniwyd Cynllun Cyfathrebu a Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Casnewydd yn Un hefyd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfathrebu a Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Casnewydd yn Un yn cynnwys mesurau perfformiad cyfyngedig, diweddariadau anghyflawn ar gynnydd, cynlluniau cyflawni gwan a dull gwan o asesu cynnydd ac effaith.

77 Lluniwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad Casnewydd yn Un ar gyfer 2014-15 i esbonio'r broses rheoli perfformiad a'r broses o roi dogfen y Cynllun Integredig Sengl ar waith. O fewn amserlen gweithgareddau'r flwyddyn, roedd nifer o ddyddiadau 'i gytuno arnynt' ac ni ddisgwyliwyd i hanner themâu'r Cynllun Integredig Sengl gael eu cyflwyno tan ddechrau 2015. Mae'r amserlen yn nodi mai dim ond unwaith y flwyddyn y caiff pob thema ei hystyried ac y bwriedir ystyried amseriad nifer o'r themâu yn ystod chwarter olaf 2014-15. Felly, nid yw'n glir sut yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon o ran perfformiad thema yn ystod camau diweddaraf y flwyddyn adrodd.

78 Caiff y broses ar gyfer adolygu'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer 2015-16 ei chynnwys o fewn amserlen gweithgareddau Fframwaith Rheoli Perfformiad 2014-15. Fodd bynnag, mae'r dyddiadau ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl i Fwrdd y Cynllun Integredig Sengl gytuno arnynt 'i'w trefnu'. Felly mae angen mwy o eglurder o ran pryd y caiff y Cynllun Integredig Sengl ei adolygu a'i ystyried i'w gymeradwyo. Nid yw'r fframwaith rheoli perfformiad yn darparu datganiad clir o ran y trefniadau a'r cyfrifoldeb dros goladu a rheoli'r holl wybodaeth gan yr holl wahanol bartneriaid.

# Atodiad 1 - Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella o Adroddiad Asesu Corfforaethol 2013

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau yn cael gwybodaeth gadarn cyn gynted â phosibl er mwyn eu galluogi i lywio, gwneud a herio dewisiadau a phenderfyniadau'n effeithiol, a sicrhau y cânt eu cofnodi ac yr adroddir arnynt mewn ffordd dryloyw. Mae hyn yn cynnwys darparu:<br>• Arfarniadau o opsiynau.<br>• Goblygiadau'r opsiynau, argymhellion a phenderfyniadau.<br>• Achosion busnes â chostau llawn cyn rhoi cychwyn ar raglenni mawr i gefnogi newid. Dylai effaith ariannol unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau gael ei chynnwys yn uniongyrchol mewn cynlluniau ariannol tymor canolig pan fo'r newid yn sicr o ddigwydd neu fel sensitifrwydd os nad yw'r newid yn sicr o ddigwydd. |
| **A2** | Dylai'r Cyngor ymateb gyda mwy o frys i'r gwendidau yn y trefniadau llywodraethu sy'n ategu ei benderfyniadau i gefnogi gwelliant. Byddai hyn yn cynnwys:<br>• atgyfnerthu trefniadau rhaglennu gwaith pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn amserol, yn ystyrlon, yn llawn gwybodaeth, yn dryloyw, yn gytbwys, yn gydlynol a'u bod yn cael eu monitro;<br>• adolygu a diweddaru cyfansoddiad y Cyngor gan sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir, a bod yr holl aelodau yn deall ac yn cymhwyso eu priod rolau mewn perthynas â'i gilydd heb amharu ar annibyniaeth;<br>• grymuso aelodau i fod yn fwy rhagweithiol ac atebol am eu rolau a'u cyfrifoldebau;<br>• atgyfnerthu trefniadau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau tryloywder a mesurau diogelu priodol;<br>• atgyfnerthu trefniadau craffu er mwyn llywio a herio polisïau, opsiynau, penderfyniadau a chamau gweithredu yn fwy effeithiol, a dwyn aelodau'r Cabinet, swyddogion, partneriaid ac eraill i gyfrif mewn ffordd gadarnach er mwyn gwneud cynnydd a gwelliannau cyflymach;<br>• cryfhau a mandadu rhaglenni datblygu a dysgu i aelodau a swyddogion yn seiliedig ar asesiadau cymhwysedd er mwyn gwella sgiliau a dealltwriaeth i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol; a<br>• ymdrin â threfniadau diogelu gwybodaeth a pharhad busnes. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A3** | Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael yn gyflym â gwendidau yn ei drefniadau cynllunio a rheoli ariannol strategol er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei welliannau arfaethedig. Wrth wneud hynny, mae angen i'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• atgyfnerthu trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig gan roi ystyriaeth lawnach i ddemograffeg, amcanestyniadau a blaenoriaethau yn ogystal â rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r gofrestr (cofrestrau) risg;<br>• mae angen monitro arbedion ariannol ac adrodd arnynt yn fwy effeithiol ar lefel gorfforaethol, yn ogystal â'r buddsoddiadau a wneir i wella/cynnal gwasanaethau;<br>• atgyfnerthu statws rheolaeth ariannol ar lefel strategol a sicrhau bod y cyfrifoldeb am hynny yn gyson ag amcanion ac atebolrwydd corfforaethol; ac<br>• sicrhau digon o her er mwyn gwneud yn siŵr y caiff cynlluniau arbed/buddsoddi eu cyflawni ac y caiff unrhyw orwariant ar gyllidebau ei nodi a'i drin drwy ymyriadau cynnar. |
| **A4** | Dylai'r Cyngor fynd i'r afael â gwendidau yn ei drefniadau rheoli pobl gyda mwy o frys er mwyn ymdrin â gwendidau hirdymor fel y gall sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen i newid a gwella. Wrth wneud hynny, dylai:<br>• sicrhau bod y broses arfarnu 360° yn cael ei hintegreiddio'n llawn yn ei drefniadau i reoli perfformiad a datblygiad staff;<br>• sefydlu cynllun gweithlu ac olyniaeth integredig er mwyn cefnogi a datblygu gweithlu'r Cyngor nawr ac yn y dyfodol a diwallu anghenion y sefydliad;<br>• mynd i'r afael â'i ddiffygion hirsefydledig o ran datblygu'r sefydliad;<br>• ymdrin â chapasiti a gallu rheolwyr i reoli, a hynny o ran eu sgiliau rheoli craidd sylfaenol a'u gallu i reoli perfformiad eu staff;<br>• llunio strategaeth recriwtio a chadw staff sy'n llawer cliriach ac a gaiff ei chyfathrebu'n well, sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithlu, rheoli talent, datblygiad personol a hyfforddiant; a<br>• parhau i wella dulliau rheoli lefelau salwch, gan ganolbwyntio ar y meysydd lle bu'r gwelliant lleiaf. |
| **A5** | Mae angen i'r Cyngor newid yn gyflymach er mwyn manteisio ar dechnoleg gwybodaeth a'i defnyddio'n well a mynd i'r afael yn gyflym â'r gwendidau sydd i'w gweld o hyd yn ei drefniadau er mwyn cefnogi gwelliant yn well. Wrth wneud hynny, mae angen i'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• datblygu a chysoni cynlluniau i wneud gwelliannau drwy ddefnyddio technoleg sy'n gysylltiedig â chanlyniadau, a chynnwys targedau a cherrig milltir clir er mwyn helpu i fonitro cynnydd;<br>• adolygu, gwerthuso ac adrodd ar effeithiolrwydd prosiectau buddsoddi mewn technoleg ynghyd â'u henillion; a<br>• rhoi trefniadau cadarn ar waith i graffu ar brosiectau technoleg a'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a'u herio'n effeithiol. |

| Argymhellion |
| --- |
| **A6** Rhoi trefniadau ar waith sy'n galluogi'r Cyngor i lunio a chraffu ar ei amcanion gwella a'u cymeradwyo a'u cyhoeddi yn amserol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Mesur. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• Datblygu dull mwy cynhwysfawr, agored a thryloyw o gyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd.<br>• Sicrhau y cyflwynir adroddiadau mewnol mewn modd systematig a rheolaidd gan dargedu'r grwpiau cywir a chanolbwyntio'n fwy ar flaenoriaethau.<br>• Datblygu dull clir a chytûn o flaenoriaethu amcanion gwella a datblygu mesurau ar gyfer yr amcanion gwella hyn sy'n cynnwys aelodau craffu ar gam cynnar a phroses ymgynghori gryfach.<br>• Galluogi aelodau i herio perfformiad gwasanaethau a chraffu arnynt yn effeithiol:<br>– egluro priod rolau'r bwrdd perfformiad a'r pwyllgor craffu;<br>– sicrhau bod y ddau grŵp yn cael gwybodaeth reolaidd, o ansawdd uchel am berfformiad sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau;<br>– sicrhau bod agendâu cyfarfodydd y ddau yn caniatáu digon o amser i aelodau ganolbwyntio ar achosion (eang) o danberfformio; a<br>– rhoi hyfforddiant i aelodau ar ddulliau herio a chraffu effeithiol.<br>• Ymgorffori'r prosesau cynllunio busnes a gwasanaeth ymhellach a sicrhau bod cynlluniau integredig corfforaethol a sengl yn cael eu cynnwys.<br>• Gwella'r broses gorfforaethol o reoli risg.<br>• Gwella'r broses o bennu targedau er mwyn adlewyrchu'n well y safonau gwasanaeth/perfformiad y mae'r Cyngor am eu cyrraedd a sicrhau y caiff adnoddau eu dyrannu i gyrraedd y safonau dymunol drwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• datblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu briodol sy'n cyfleu'r fframwaith sefydliadol a'r genhadaeth newydd, ac sydd hefyd yn cefnogi newidiadau diwylliannol o fewn y sefydliad;<br>• sicrhau bod ganddo'r bobl a'r adnoddau a all weithredu'r fframwaith sefydliadol a gwneud newidiadau dilynol i wasanaethau; ac<br>• ymgysylltu â'r Comisiwn Tegwch wrth ddatblygu blaenoriaethau gwella yn ogystal â chynigion cyllidebol. |
| **C2** | Gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella a nodir yn ein hadroddiadau blaenorol ar reoli asedau yn llawn. |
| **C3** | Meithrin dealltwriaeth gliriach o'r prosiectau cydweithredol sy'n mynd rhagddynt yn y Cyngor a chytuno ar ffordd o reoli cydweithrediad a'i chyfleu yn eang. Dylai'r dull gweithredu hwn helpu'r Cyngor i sicrhau bod trefniadau cydweithredu yn cynnig gwerth am arian i ddinasyddion Casnewydd. |
| **C4** | Gwerthuso strwythurau newydd y BGLl er mwyn sicrhau bod cylchoedd gorchwyl yn glir, bod y grwpiau yn gynhwysol (yn arbennig bartneriaid o'r trydydd sector a'r sector preifat), ac nad yw rolau'n cael eu dyblygu. |
| **C5** | Egluro amserlenni ar gyfer diweddaru ac adolygu'r Asesiad Anghenion Unedig a'r Cynllun Integredig Sengl a datblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth ehangach o'r dogfennau allweddol hyn. Sicrhau bod y broses o ddethol blaenoriaethau yn glir, yn dryloyw, y cytunir arni ac y caiff ei chyfleu'n eang. |
| **C6** | Atgyfnerthu fframwaith rheoli perfformiad y BGLl er mwyn nodi:<br>• rolau a chyfrifoldebau cliriach a manylach o ran yr hyn a gyflawnir gan sefydliadau penodol;<br>• pa wybodaeth a gaiff ei chasglu am berfformiad, ble a phryd y caiff ei monitro, a sut y caiff cynnydd a pherfformiad eu monitro;<br>• systemau ar gyfer ymdrin ag achosion o danberfformio; ac<br>• mwy o ffocws ar reoli perfformiad ac adnoddau ar draws y BGLl. |
| **C7** | Cynnal momentwm cynyddol prosiect Gweithio yn y Gymdogaeth a sicrhau y cyflawnir ei effaith arfaethedig ar gymunedau a dinasyddion. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru